# Adroddiad 2023-24

**Adroddiad y Cadeirydd, Euros Roberts:**

Fel de chi n cofio mi gychwynnodd y flwyddyn yng nghyfarfod blynyddol 2023 wrth i ni arwyddo dogfen swyddogol oedd yn cadarnhau gefeillio rhwng Llanuwchllyn a'r Gaiman ym Mhatagonia a trwy hynny bydd cydweithio rhwng y ddwy ardal ac o bosib bydd myfyrwyr or Gaiman yn dod draw i Llan yr Haf yma!

Roedd Gorffennaf 2023 yn gyfnod hanesyddol yn y Llan hefyd wrth i Fenter gymunedol gael ei sefydlu fel endid swyddogol, a phrosiect cyntaf y fenter oedd prynu tafarn yr Eagles fel tafarn dan berchnogaeth y gymuned ac fe gwblhawyd y pryniant hwnnw ddechrau Hydref gan agor ar ei newydd wedd ddechrau Rhagfyr! Ac o fod wedi bod yng nghanol bwrlwm y fenter gymunedol mae y posibiliadau yn enfawr, felly edrychwn ymlaen at be fydd y prosiectau nesaf!

Mi fuodd is bwyllgor y Nadolig yn brysur iawn eto gan drefnu gosod coed Nadolig ac addurno o gwmpas y pentref a 2 noson o rannu anrhegion gan Sion Corn i blant rownd cartrefi y pentref ar cymoedd elfen sydd yn cael ei werthfawrogi yn fawr!

Mi ddaru y cyngor gyfrannu yn ariannol at y brecwast fferm yn y neuadd ddiwedd Ionawr a oedd yn rhan o wythnos brecwast fferm UAC ar holl arian yn mynd i elusen. Gan fod llawer o ddigwyddiadau cymdeithasol eraill wedi ei trefnu yn ystod Chwefror a Mawrth ni gynhaliwyd noson goffi eleni dan nawdd y cyngor cymuned ond roedd hynny yn arwydd o gymaint o fwrlwm, prysurdeb a digwyddiadau arall sydd o fewn yr ardal, a gobeithio fydd y bwrlwm ar prysurdeb hwnnw yn parhau wrth i ni barhau i gynnal ein cymuned ir dyfodol.

Felly wrth derfynu ga' i ddiolch yn fawr am y fraint o gael cadeirio y cyngor dros y flwyddyn diwethaf a diolch i bawb yn gynghorwyr a swyddogion am eich cydweithrediad ach cymorth gan ddymuno pob rhwyddineb ir Cadeirydd newydd dros y flwyddyn nesa!

Diolch yn fawr

Euros Roberts

**Y Cyngor**

Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn y Neuadd Bentref ac ar Teams ar nos Fawrth cyntaf y mis (ond nid yn Awst) am 7.30pm. Rhoddir hysbysiad o bob cyfarfod ar yr Hysbysfwrdd ar wal y Neuadd ac ar y wefan .www.cynghoraupenllyncouncils.co.uk (Llanuwchllyn)

**Cynghorwyr**

Mae 11 Cynghorydd Cymuned yn cynrychioli ward Llanuwchllyn:

**Y Cynghorwyr**, Euros Roberts, (Cadeirydd), Huw P Roberts (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones Alwyn Roberts, Dewi Wyn Jones

**Cyngor Gwynedd:** Llanuwchllyn yw'r ward ar gyfer Cyngor Gwynedd, ac mae hefyd yn cynnwys Cyngor Cymuned y Glyn Llangywer, a Ward Cymuned Llanycil: Cynghorydd Alan Jones Evans

**Clerc:** Lis Puw, cyngor-llanuwchllyn@outlook.com 07896964120

**Ariannol 2023-24 – Cyfrifon Refeniw, Cyfalaf a Mynwent**

Incwm yn y flwyddyn: 14820(praesept) + 10598 (arall)
Gwariant yn y Flwyddyn: 5868 (staff) + 24331 (arall)

**Cynllun Hyfforddi:**

Hyfforddiant ar Ardal Ni Penllyn

**Archwilio:** Adroddiad yr Archwilydd Mewnol - ar y wefan

Adroddiad yr Archwilydd Allanol - ar y wefan

**Amcanion ar gyfer y flwyddyn 2023-24:**

**Cynnydd:**

- **Cynllun Ardal wedi ei gwblhau:** Mae'r Cynllun Ardal erbyn hyn wedi ei gyflwyno i sefydliadau perthnasol fel Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol ac wedi cael derbyniad da. Yn ystod y noson goffi ym mis Chwefror cyflwynwyd y Cynllun i'r ardalwyr ar ôl rhannu taflenni i dai'r pentref yn esbonio ei gynnwys. Rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad iddo.

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:** Dengys y cyfraniadau hael a dderbynnir yn y cyfleusterau eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr iawn. Bu gwario ar uwchraddio'r draeniau gyda chymorth Dwr Cymru.

- **Dathliadau'r Nadolig:** Cynhaliwyd nifer o weithgareddau er mwyn dathlu'r Nadolig gan gynnwys gosod coed Nadolig ger y Gilfach Goffa a'r Ysgoldy ynghyd ag ymweliadau gan Sion Corn ar nosweithiau yn ystod mis Rhagfyr. Unwaith eto cafwyd canmoliaeth mawr gan drigolion lleol i'r gweithgareddau hyn.

- **Trafodaethau ar y sefyllfa Cartrefi:** Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Sylfeini, Elusen Maurice Vaughan, Parc Cenedlaethol Eryri , Hwylusydd Tai Gwledig Cynefin, Kath Robinson o "Cwmpas".

- **Gefeillio â'r Gaiman:** Yn dilyn trafodaethau ers rhai blynyddoedd mae'r broses efeillio wedi digwydd â'r llythyr swyddogol i gadarnhau hynny o'r Gaiman wedi ei arwyddo gan Y Gaiman a Llanuwchllyn.

- **Menter Cymunedol Llanuwchllyn** Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus a chytunwyd i greu Menter Cymunedol gyda'r bwriad yn y lle cyntaf i brynu tafarn yr Eagles; cafwyd llwyddiant anhygoel yn hyn o beth. Cyfrannodd y Cyngor at y Fenter.

- **Llwybr Cei:** cydweithiwyd gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i uwchraddio'r llwybr a gosod mainc yno.

**Bwriadau** ar gyfer y flwyddyn i ddod:

- Cydweithio gyda Sylfeini, Cynefin, Cyngor Gwynedd ac Elusen Maurice Vaughan i ddarparu tai i bobl leol
- Croesawu pobl ifanc o'r Gaiman i Lanuwchllyn
- Cefnogi gweithgareddau Menter Cymunedol Llanuwchllyn i ofalu am a datblygu asedau er budd y Gymuned.

**Ymgysylltu gyda'r Gymuned:** Mae'r Cynghorwyr yn adnabod eu hardal yn drwyadl gyda chynrychiolaeth o bob cwm ar y cyngor. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus gyda chynulleidfa luosog yn frwd dros brynu'r Eagles. Cyfrannwyd at Frecwast y Ffermwyr ac at nifer o gymdeithasau lleol. Mae'r Cyngor yn trefnu i Sion Corn ymweld a chartrefi'r ardal. Mae Cyfeillio gyda'r Gaiman ym Mhatagonia wedi ei ffurfioli.

**Asedau:**

| **Ased** | **Lleoliad** | **Disgrifiad** | **Gwerth £** | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Lloches Bws | Y Lôn | Adeilad carreg a llechen | 5020.00 | Cyn 2000 |
| 2. Lloches Bws | Peniel | Adeilad carreg a llechen | 5020.00 | Cyn 2000 |
| 3. Lloches Bws | Ty'n Ddol | Adeilad carreg a llechen | 5020.00 | Cyn 2000 |
| 4. Lloches Bws | Y Llan (wrth yr Ysgol) | Gwneuthuriad plastig | 4224.00 | 04.12.2013 |
| 5. Giat y Fynwent | Y Fynwent Newydd | Giat addurniedig | 4107.00 | Cyn 2000 |
| 6. Hysbysfwrdd y Fynwent | Y Fynwent Newydd | Hysbysfwrdd - man-made Timber ar y ffens | 600.00 | 03.2016 |
| 7. Hysbysfwrdd y Fynwent | Y Fynwent Newydd | Hysbysfwrdd - man-made Timber ar bolion | 735.00 | 06.2018 |
| 8. Y Fynwent Newydd yn cynnwys y maes parcio | | | 1.00 | Cyn 2000 |

Clerc: Lis Puw: 01678 540654 07896964120 Bedw Gwynion, Llanuwchllyn, Gwynedd LL23 7TW
cyngor-llanuwchllyn@outlook.com www.cynghoraucymunedpenllyncouncils.co.uk

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 9. Byrddau Gwybodaeth | 5 safle o gwmpas y pentref | Gwybodaeth hanesyddol a diddorol am yr ardal | 6500.00 | 25.11.2019 |
| 10. Meinciau Pren | Y Gilfach Goffa | 2 sêt o bren | 800.00 | Cyn 2000 |
| 11. Meinciau Pren | Y Fynwent<br>Ciosg y Pentref<br>Gwaelod rhiw Maes y Pandy | 3 sêt o bren | rhoddion | Cyn 2000 |
| 12. Meinciau | Wrth y groesffordd am Cynllwyd | 1 sêt o bren<br>1 sêt o blasting wedi ei ailgylchu | rhoddion | |
| 13.Ciosg Pennantlliw | Pont Pennantlliw | Ciosg Ffôn | 1.00 | 23.05.2018 |
| 14. Pwmp y Llan | Wrth Hen Dy'r Ysgol | Hen Bwmp dŵr y pentref | | Cyn 2000 |
| 15. Cyfrifiaduron | Clerc, SAC | Gliniaduron - 2 | 1212.00 | 17.12.2021 |
| 16. Mynwent yr Eglwys | | | 1.00 | Cyn 2000 |
| Cyfanswm | | | 33221.00 | |

**Cynllun Bioamrywiaeth:**

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri i drafod plannu coed a gwrychoedd; disgwylir mwy o hyn yn Hydref 2024. Plannwyd gwrych ym maes parcio'r fynwent, a phlannwyd nifer o lwyni wrth y fynedfa yno.

## Yn y flwyddyn nesaf:

- cynnal y ddarpariaeth ar gyfer tylluanod a gwenoliaid duon
- parhau i gydweithio gyd Parc Cenedlaethol Eryri ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru gyda'r bwriad o blannu coed Yw ym maes parcio'r fynwent ynghyd a phlannu gwrych yno.